WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr S Smith
Prif Swyddog Tân
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys
Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

| | |
|---|---|
| Cyf | **499A2011** |
| Dyddiad | 23 Medi 2011 |
| Tudalen | 1 o 3 |

Annwyl Mr Smith

**Asesiad Gwella: Archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad**

Mae pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn casglu ac yn cyhoeddi manylion am sut maent wedi perfformio yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae Grŵp Llywio Rhaglen Wella Cymru wedi cytuno i ddefnyddio set o ddangosyddion perfformiad dros dro yn ystod 2010-11. Caiff y dangosyddion perfformiad dros dro eu defnyddio yn yr un ffordd â phe baent yn fersiynau statudol terfynol a chraidd. Felly, bydd y gwaith o gasglu data, archwilio a chyflwyno adroddiadau'n cael ei wneud yn unol â threfniadau presennol a bydd yn ystyried gofynion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Ceir manylion yng Nghylchlythyr W-FRSC (2010)10 Llywodraeth Cymru. Mae dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau tân ac achub i gasglu a chyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r holl ddangosyddion hyn ar ffurf data all-dro yng nghynlluniau gwella statudol 2010-11.

Cynhaliodd staff Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad o'r 12 o Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst eleni. Dau brif amcan yr archwiliad o ddangosyddion perfformiad yn 2010-11 oedd:

- llywio'r asesiad o ran a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd;
- bodloni'r gofyniad sy'n nodi bod yn rhaid i Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol fod yn amodol ar archwiliad statudol sy'n seiliedig ar risgiau.

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys ein prif ganfyddiadau sydd wedi'u crynhoi isod. Ceir rhagor o fanylion yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Rydym hefyd wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella a fydd, yn ein barn ni, yn gwella'r gwaith o gasglu a chofnodi data a hefyd yn gwella effeithlonrwydd archwiliadau o ddangosyddion perfformiad yn y dyfodol.

**Canfyddiadau**

Cafwyd bod pob un o'r 12 o Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol wedi'u nodi'n gywir. Fodd bynnag, roedd angen diwygio dau ffigur yn ystod yr archwiliad ond nid oedd y diwygiadau'n rhai sylweddol ac nid effeithiwyd ar werth canlyniadol y Dangosyddion Perfformiad. Y rheswm dros y diwygiad oedd bod 'digwyddiadau dros y ffin' wedi'u hepgor. Dangosodd yr archwiliad fod problem o ran lawrlwytho cofnodion o CLG i gronfa ddata Vision Oracle gan nad oedd cofnodion o ddigwyddiadau yng Ngogledd Cymru lle mae cofnod IRS wedi'i lunio a'i gyhoeddi gan awdurdodau cyfagos yn cael eu derbyn gan gronfa ddata Vision Oracle. Rydym wedi cael gwybod bod yr Awdurdod yn sicrhau bod cofnodion wedi'u cwblhau o ran 'digwyddiadau dros y ffin' o fis Ebrill 2011 ymlaen.

Marwolaethau oherwydd tân; yn yr awdurdod penodol hwn, cymerir yn ganiataol fod pob marwolaeth sy'n gysylltiedig â thân yn cael ei hachosi gan danau at ddibenion cofnodi. Dim ond pan fydd adroddiadau'r crwner yn cael eu derbyn a'u bod yn nodi nad oedd y farwolaeth yn gysylltiedig â thân y bydd yr Awdurdod yn diwygio'r ffigurau. Mae ein gwaith ar yr archwiliadau o ddangosyddion perfformiad wedi nodi dulliau gwahanol o bennu a chofnodi marwolaethau oherwydd tân. O ganlyniad i hyn byddwn yn trafod y mater gyda Llywodraeth Cymru ac yn ceisio eglurhad ac arweiniad.

**Meysydd i'w Gwella**

Mae'r archwiliad o ddangosyddion perfformiad wedi nodi'r meysydd canlynol lle yr argymhellwn y dylai'r Awdurdod weithredu.

1. Sicrhau bod data ar 'ddigwyddiadau dros y ffin' yn cael ei nodi'n gywir drwy'r IRS a bod lawrlwythiadau i gronfa ddata Vision Oracle yn gweithio'n iawn.

Yn gywir

Lisa Williams
Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant

Cc Kerry Citric, Cangen Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth Cymru

## Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - canfyddiadau archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol 2011

| DP | Data Gwreiddiol | | Data Terfynol | Sylw Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| RRC / S / 001 i<br><br>Cyfanswm y tanau yr ymatebwyd iddynt fesul 10,000 o'r boblogaeth | Cyfanswm y tanau yr ymatebodd y Gwasanaeth Tân ac Achub iddynt | 3,289 | 3,297 | Diwygiwyd y data am na chafodd wyth 'digwyddiad dros y ffin' eu cofnodi. Gan nad oedd y diwygiad yn un sylweddol, nid ydym wneud gwneud cais i werth y dangosydd perfformiad gael ei ddiwygio. |
| | Poblogaeth ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub | 678,750 | 678,750 | |
| | Gwerth DP | 48.46 | 48.46 | |
| RRC / S / 001 iv<br><br>Cyfanswm y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt, fesul 10,000 o'r boblogaeth | Cyfanswm y tanau bwriadol yr ymatebodd y Gwasanaeth Tân ac Achub iddynt | 1,435 | 1,438 | Diwygiwyd y data am na chafodd tri 'digwyddiad dros y ffin' eu cofnodi. Gan nad oedd y diwygiad yn un sylweddol, nid ydym wneud gwneud cais i werth y dangosydd perfformiad gael ei ddiwygio. |
| | Poblogaeth ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub | 678,750 | 678,750 | |
| | Gwerth DP | 21.14 | 21.14 | |